




## Nosweithiau rhieni a gwarcheidwaid

Cofiwch fod nosweithiau rhieni a gwarcheidwaid Dydd Llun a Mawrth nesaf. Byddwch eisoes wedi derbyn dolen er mwyn trefnu apwyntiad.

## *Parents and guardians' evenings*

*Here's a reminder that there are parents and guardians' evenings next Monday and Tuesday. You will have already received a link to book an appointment.*

---

## Stroliwch a roliwch : 24/03 – 04/04

Mae pythefnos Stroliwch a Roliwch yn dechrau dydd Llun. Dywed y fenter: "Mae Stroliwch a Roliwch Sustrans yn ysbrydoli disgyblion i wneud gwahaniaeth iddyn nhw eu hunain, eu cymuned, a'u byd drwy wneud siwrneiau egnïol i'r ysgol."

Beth am fynd ati i leihau'r draffig ger yr ysgol wrth gerdded, beicio neu sgwtera yn ystod y bythefnos nesaf, a thu hwnt?!

## *Big Walk and Wheel : 24/03 – 04/04*

*The Big Walk and Wheel starts on Monday! The initiative says: "Sustrans Big Walk and Wheel inspires pupils to make active journeys to school, improve air quality in their neighbourhood and discover how these changes benefit their world.."*

*Why not reduce the traffic near the school by walking, cycling or scootering for the next fortnight, and beyond?!*

---



## Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu ddoe yn yr Eisteddfod Gylch. Ymlaen nesa i'r Eisteddfod Rhanbarth ar gyfer y rhai a ddaeth yn $1^{af}$ ac $2^{ail}$.
I weld canlyniadau yr Eisteddfod Gylch ewch i'n tudalen Instagram
Cynhelir yr Eisteddfod Rhanbarth ddydd Sadwrn nesaf. Gweler y ddolen isod am fwy o wybodaeth

**https://bit.ly/41Kp6YM**

## *Ceredigion Regional Eisteddfod*

*Congratulations to everyone who competed yesterday in the Ystwyth Area Eisteddfod.*
*Onward next to the District Eisteddfod for those who came $1^{st}$ and $2^{nd}$.*
*To see the results of the Area Eisteddfod go to our Instagram page.*
*The Regional Eisteddfod will be held next Saturday. See the link below for more information*

**https://bit.ly/41Kp6YM**

---



## Ffarwelio gyda staff

Hoffwn ddiolch i Mrs Catrin Morgan-Lewis am ei gwaith yn yr ysgol yn ystod y dair blynedd diwethaf. Treuliodd Mrs Morgan-Lewis ei chyfnod ddiweddaraf yn cefnogi disgyblion y Meithrin. Dymunwn yn dda iddi yn ei rôl newydd gyda Chyngor Tref Aberystwyth.

## *Farewell to a member of staff*

*I would like to thank Mrs Catrin Morgan-Lewis for her work at the school during the last three years. Mrs Morgan-Lewis spent her most recent period supporting the Nursery pupils. We wish her well in her new role with Aberystwyth Town Council.*


---

## Arolwg ESTYN

Hoffwn ddiolch i chi i gyd fel rhieni a gwarcheidwaid am eich mewnbwn i'r arolwg a gynhaliwyd yr wythnos hon. Trwy gyfrannu tuag at holiaduron a chyfarfodydd; a thrwy eich cefnogaeth i dwtio, trwsio a pheintio ardaloedd allanol yr ysgol, gwelwyd gwir ymdrech gan dîm o bobl – sef cymuned yr ysgol – i ddangos cydweithio ar ei orau. Am hynny rwy'n ddiolchgar iawn i chi. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar y 23ain o Fai 2025.

## *ESTYN Inspection*

*I would like to thank you all as parents and guardians for your input to the inspection which took place this week. By contributing towards questionnaires and meetings; and through your support to spruce up, repair and paint the external areas of the school, a real effort was seen by a team of people - namely the school community - to show collaboration at its best. For this I am very grateful to you. The report will be published on the 23rd of May 2025.*



## Calendr Hanner Tymor

Mae Calendr Hanner Tymor newydd wedi'i greu: dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn.
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*A new half term calendar has been created. Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**21/03/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
@YrYsgolGymraeg
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
01970 617613
Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James